**Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon, a Chysylltiadau Rhyngwladol**
**—**
**Culture, Communications, Welsh Language, Sport and International Relations Committee**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddDiwylliant@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddDiwylliant
0300 200 6565
**—**
**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddCulture@senedd.wales
senedd.wales/SeneddCulture
0300 200 6565

Elin Jones AS
Y Llywydd

Dyddiad | Date: 21 Gorffennaf 2021

Pwnc | Subject: Amserlen y Pwyllgor

Annwyl Lywydd,

Diolch am eich llythyr dyddiedig 14 Gorffennaf gyda'r amserlen i'r Pwyllgor fel y'i cytunwyd arni gan y Pwyllgor Busnes yn ei gyfarfod ar 13 Gorffennaf. Mae'n ddefnyddiol gwybod pryd a pha mor aml y bydd Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon, a Chysylltiadau Rhyngwladol ('y Pwyllgor') yn cyfarfod er mwyn cynllunio ein rhaglen waith.

Trafododd y Pwyllgor yr amserlen yn ei gyfarfod ar 14 Gorffennaf ac mae'r Aelodau'n pryderu na fydd un slot bore bob pythefnos yn ddigon inni allu cwmpasu ehangder a manylder y materion sy'n wynebu'r sefydliadau a'r unigolion yn ein portffolio.

Deallaf fod yr amserlen wedi'i chynllunio i ddarparu ar gyfer llanw a thrai craffu deddfwriaethol ac i ganiatáu mwy o hyblygrwydd. Fodd bynnag, bydd hi'n anodd i'r Pwyllgor allu manteisio ar unrhyw slotiau cyfarfod ychwanegol pan fydd ein haelodaeth yn cael ei rhannu â phwyllgorau a fydd yn cyfarfod yn ein 'hwythnosau rhydd'.

Er mwyn gwneud y gorau o'n cyfleoedd i graffu ar y portffolio hwn, mae'r Pwyllgor wedi cael sgyrsiau cychwynnol ynghylch edrych ar ffyrdd eraill o weithio a chasglu tystiolaeth. Byddwn yn ddiolchgar am arweiniad pellach ar sut y gellir darparu ar gyfer y gwaith hwn. Yn benodol, y math o weithgarwch y gall pwyllgorau ymgymryd ag ef yn ystod yr 'wythnosau rhydd' a'r mecanwaith ar gyfer trefnu i'w gyflawni.

Mae Aelodau'r Pwyllgor wedi nodi y byddai'n well ganddynt pe bai'r Pwyllgor Busnes yn adolygu'r amserlen cyn eich dyddiad arfaethedig, sef Pasg 2022. A wnewch chi gyfleu ein pryderon i'r Pwyllgor Busnes ac ystyried ein cais am adolygiad yn gynt na'r amserlen?

Yn gywir,

Delyth Jewell AS

Cadeirydd

Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg.

We welcome correspondence in Welsh or English.